



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ganolfan Gofal Dydd Happy Days
Adeilad 11
Marina Aberdaugleddau
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3AF**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2018

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg preifat yn Aberdaugleddau yn awdurdod lleol Sir Benfro yw Canolfan Gofal Plant. Mae wedi'i gofrestru i ddarparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 75 o blant o dan ddeuddeg oed. Perchennog y lleoliad yw cyfarwyddwr y cwmni, sy'n rheoli'r gweithrediadau o ddydd i ddydd, ynghyd â rheolwr cynorthwyol.

Roedd 24 o blant ar y gofrestr yn y cylch chwarae yn ystod yr arolygiad. Mae naw o'r rhain yn blant tair oed y mae tri ohonynt yn derbyn cyllid y blynyddoedd cynnar gan yr awdurdod lleol. Mae tri aelod o staff yn gweithio yn y cylch chwarae'n rheolaidd. Mae gan bob un ohonynt gymwysterau'r blynyddoedd cynnar. Mae arweinydd yr ystafell wedi bod yn ei swydd er mis Mawrth 2017.

Saesneg yw'r iaith y mae pob un o'r plant yn ei siarad gartref. Adeg yr arolygiad, mae'r lleoliad wedi nodi bod gan leiafrif o blant anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Chwefror 2016 a chan Estyn yn Ionawr 2012.

Crynodeb

| | |
|---|-----------|
| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson o'u manau cychwyn unigol ar draws yr holl feysydd dysgu
- Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i ddysgu
- Mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau a siâp
- Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau meddwl yn dda
- Mae bron pob un o'r plant yn dechrau'r lleoliad yn hapus ac yn ymgyfarwyddo â'u harferion yn gyflym
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y plant yn dda
- Mae gan y lleoliad ethos cynnes a chroesawgar ble mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae arweinydd y lleoliad yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad clir
- Mae rolau a chyfrifoldebau yn y feithrinfa wedi'u diffinio'n glir
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm pwrpasol
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod meysydd i'w datblygu yn cael eu nodi, ac yr eir i'r afael â nhw yn llwyddiannus
- Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned yn cynorthwyo'r plant ag ystod o gyfleoedd dysgu buddiol
- Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i gymorth a chyngor yr awdurdod lleol i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth

Argymhellion

A1 Gwella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sesiynau

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant wneud penderfyniadau am eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn unigol yn unol â'u cyfnod datblygu. Maent yn cyrraedd yn llawn diddordeb ar gyfer y sesiwn sydd o'u blaenau, ac yn eu cynnwys eu hunain yn frwdfrydig yn y gweithgareddau o'u dewis.

Wrth wrando ar stori, mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn dangos llawer o ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd. Mae lleiafrif o blant yn defnyddio llyfrau'n annibynnol wrth iddynt chwarae. Maent yn eu trin a'u trafod yn ofalus ac yn troi'r tudalennau'n gywir. Yn ystod amseroedd grŵp, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n hapus mewn caneuon a rhigymau. Maent yn canu'n frwdfrydig ac yn ymuno â symudiadau cyfarwydd. Mae amser 'deffro a symud' yn y bore yn ffefryn mawr lle mae ymarferwyr a phlant yn gwneud ymarfer corff i ddechrau eu diwrnod gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn briodol. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn hapus mewn sgysiau gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, wrth wneud trac trê'n gyda'i gilydd, mae plant yn trafod pa ddarn y byddant yn ei ddefnyddio nesaf. Mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r gair ysgrifenedig. Mae bron pob un ohonynt yn adnabod eu henw pan fyddant yn cofrestru yn y bore ac yn dangos rheolaeth gynyddol wrth ddargopïo â phensil neu greu marciau mewn ystod o wahanol sylweddau, fel paent neu ewyn eillio.

Mae llawer o blant yn cyfrif yn hyderus gydag oedolyn i ddeg ac yn ôl. Maent yn dangos eu dealltwriaeth o rifau pan fyddant yn enwi rhifau ysgrifenedig i fyny i bump yn hyderus. Mae rhai plant yn gwybod rhifau i fyny i ddeg. Er enghraifft, dangosant hyn pan fyddant yn adnabod eu cwpan amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi ystod dda o siapiau fel cylchoedd, sêr, calonnau a thrioglau yn gywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth gymharu meintiau pengwiniad, gan eu nodi'n gywir fel bach neu fwy neu lai.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir gan ymarferwyr, ac mae tua hanner ohonynt yn enwi sawl lliw yn Gymraeg yn gywir. Fodd bynnag, mae defnydd annibynnol plant o'r Gymraeg y maent wedi'i dysgu yn gyfyngedig.

Mae llawer o blant yn hyderus yn defnyddio offer TGCh. Defnyddiant sgrin ryngweithiol i baru siapiau syml, ac maent yn rhaglennu tegau i symud ar hyd grid stryd i ymweld â siopau penodol.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn ymuno'n frwd â sesiynau symud ac yn symud beiciau a sgwteri'n fedrus o gwmpas ardaloedd y tu allan. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau datrys problemau yn effeithiol, er enghraifft wrth feddwl sut i ryddhau creaduriaid sy'n sownd mewn blociau rhew.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn gwneud dewisiadau annibynnol am yr hyn yr hoffent ei wneud. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu ac yn dangos lefelau da o gymhelliant a ffocws. Er enghraifft, wrth orchuddio siâp iglw â chiwbiau siwgr, maent yn cymryd eu hamser ac yn canolbwyntio'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gorchuddio pob rhan.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth wisgo a thynnu eu cotiau a'u dillad amddiffynnol i fynd y tu allan. Maent yn awyddus i roi cynnig ar brofiadau newydd ac yn treulio amser yn gwneud yn siŵr eu bod yn cwblhau tasg a ddewiswyd i'w boddhad, er enghraifft canolbwyntio'n ofalus i greu tŷ cymhleth o flociau bach.

Ceir perthnasoedd cryf yn y lleoliad. Mae plant yn gwrtais a pharchus at oedolion ac yn gwybod y dylent rannu a chymryd eu tro â'i gilydd. Maent yn deall rheolau'r lleoliad ac yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i aros yn iach. Maent yn gwybod ei bod yn bwysig golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta i wneud yn siŵr eu bod yn golchi'r germau ymaith er mwyn osgoi mynd yn sâl. Amser byrbryd, mae bron pob un o'r plant yn brwsio'u dannedd yn frwdfrydig i gân gyfarwydd ac yn mwynhau eu ffrwyth a'u llaeth neu ddŵr.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|--|-----------|

Profiadau dysgu: Da

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio profiadau dysgu ar gyfer y plant. Maent yn trafod themâu a gweithgareddau, y maent yn eu gweddu'n agos i anghenion dysgu'r plant ac i ofynion y cyfnod sylfaen. Rhoddir sylw arbennig o dda i anghenion dysgu penodol plant unigol. Targed diweddar a llwyddiannus fu sicrhau bod mwyafrif dysgu'r plant yn digwydd yn yr awyr agored, ble bynnag y bo modd. Mae hon yn nodwedd fuddiol yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu ystod ddefnyddiol o offer a phrofiadau sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ar gyfer y plant. Mae'r rhain yn ysgogol a pherthnasol i'r plant ac yn ennyn eu diddordeb mewn dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant wneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ardaloedd llyfrau yn cynnwys adnoddau da a rhoddir digon o gyfleoedd i blant ddarllen yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn cynnig gwasanaeth benthyca llyfrau llyfrgell i deuluoedd plant yn y cylch chwarae. Maent yn newid y llyfrau bob wythnos ac yn annog teuluoedd i'w rhannu â'i gilydd. Maent yn defnyddio'r amser croesawu yn y bore yn dda i gefnogi dealltwriaeth plant o gysyniadau mathemategol fel lliw a siâp, ac yn defnyddio caneuon a rhigymau yn effeithiol i ddatblygu medrau cyfrif cynnar plant.

Mae ystod ddiddorol o ymweliadau ac ymwelwyr yn cyfrannu'n dda at brofiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae ymweliad diweddar â Chastell Penfro, ymweliad â'r orsaf dân leol ac ymweliadau gan gi tywys ar gyfer y deillion i gyd yn ychwanegu

diddordeb ac amrywiaeth at y cwricwlwm. Mae dathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali yn cyfrannu'n fuddiol at ddealltwriaeth plant o'r byd o'u cwrmpas ac yn hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml. Maent yn annog plant i gyfrif a chanu amrywiaeth o ganeuon cyfarwydd yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydynt yn atgyfnerthu hyn yn gyson trwy gydol y sesiynau. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy eu gweithgareddau ar Ddydd Gŵyl Dewi ac fel rhan o destunau eraill, er enghraifft pan ddysgon nhw am y gwahanol fathau o gŵn Cymreig yn ystod eu testun ar anifeiliaid anwes.

Addysgu: Da

Mae ymarferwyr yn ymwneud yn llawn â'r plant yn ystod y sesiynau. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen yn sicrhau eu bod yn darparu cymorth pan fydd angen, ond maent hefyd yn gwybod pryd i sefyll yn ôl a galluogi plant i archwilio ac ymchwilio drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn gwneud dewisiadau'n hyderus. Mae pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau penagored yn fedrus i hyrwyddo meddwl plant. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn dda trwy annog plant i ddilyn rheolau syml y lleoliad, ac yn darparu ystod o brofiadau ysgogol, gan sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau o'u dewis.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi sefydlu gweithdrefnau gwerth chweil i asesu ac olrhain cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau perthnasol o'r plant, ac o'r rhain maent yn nodi unrhyw anghenion pellach neu'r camau nesaf mewn dysgu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn bwrpasol i lywio cynllunio yn y dyfodol. Fel hyn, gall ymarferwyr ddarparu cymorth ar gyfer y plant hynny sydd angen atgyfnerthu pellach, a chyfleoedd i'r plant mwy abl symud ymlaen. Cyflwynwyd adroddiadau tymhorol i rieni yn ddiweddar hefyd, sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud, a'r camau nesaf yn eu dysgu.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynnes a gofalgwr ble mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn dangos parch at y plant ac yn annog eu hunigoliaeth. Mae gweithdrefnau sefydledig yn helpu plant i ddeall pwysigrwydd bwya ac yfed yn iach. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn mwynhau byrbrydau iach gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Mae plant yn brwsio'u dannedd yn y lleoliad bob bore a rhoddir cyfleoedd defnyddiol iddynt wneud ymarfer corff dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae plant yn rhoi eu papur sgrap mewn bin arbennig ar gyfer ailgylchu ac yn deall y bydd yn mynd oddi yno i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud pethau eraill.

Mae ymarferwyr yn sicrhau datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol plant yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i rannu, cymryd eu tro a bod yn garedig â'i gilydd yn gyson. Maent yn cefnogi eu datblygiad ysbrydol yn briodol trwy'r ystod o brofiadau diddorol a ddarperir ganddynt i greu synnwyr o syfrdan a rhyfeddod. Er enghraifft, bu plant yn tyfu llyisiau, yn eu gwyllo'n tyfu ac wedyn eu cynaeafu i'w coginio ar gyfer eu cinio.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sefydledig i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Pan fydd angen, mae gan blant gynlluniau chwarae unigol gyda thargedau personol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r rhain gyda rhieni ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae cysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol yn darparu cymorth a chyngor ychwanegol defnyddiol, Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi a'u trin â pharch. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda fel unigolion ac yn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael yr un cyfle i elwa ar ystod lawn y profiadau dysgu. O ganlyniad, mae pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, maent yn hyderus ac yn mwynhau siarad ag ymwelwyr. Mae ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas o ran gweithio gyda phlant ifanc.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Maent yn sicrhau bod adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu sy'n bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae adnoddau ar gael yn hawdd ac mae plant yn eu defnyddio'n annibynnol yn ystod eu chwarae.

Mae ymarferwyr yn gwella'r amgylchedd dysgu ymhellach gydag arddangosfeydd lliwgar o waith plant. Nodwedd gref o'r lleoliad yw'r ardaloedd archwilio dychmygus a ddarperir ar gyfer y plant i ymchwilio i'w testun cyfredol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys didoli bisgedi cŵn, a gwneud patrymau mehndi gan ddefnyddio cerrig ar dywod lliw.

Mae gan ymarferwyr gysylltiadau da â llyfrgell y dref ac maent yn cael benthg llyfrau i wella cornel ddarllen y plant a chefnogi eu llyfrgell benthg i rieni. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliad cyffrous â fferm bwmpenni wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|--|-----------|

Arweinyddiaeth: Da

Mae cyfarwyddwr y feithrinfa yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol i'r lleoliad. Mae'n goruchwylio'r cylch chwarae gyda chymorth y rheolwr cynorthwyol, a gyda'i gilydd, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o waith y lleoliad a'r targedau cyfredol ar gyfer gwella. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod pob un o'r staff yn y feithrinfa yn rhannu ei gweledigaeth.

Mae ymarferwyr yn y cylch chwarae wedi eu cymell yn dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl ar gyfer y plant. Mae arweinydd yr ystafell wedi bod yn ei swydd ers ychydig fisoedd yn unig, ond mae hi eisoes wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i wella'r broses gynllunio ac asesu. Mae'r rhain yn sicrhau bod ymarferwyr yn nodi a bodloni anghenion pob plentyn yn effeithiol.

Mae system gwerthuso blynyddol sefydledig yn llywio anghenion hyfforddi'n llwyddiannus. Mae gan bob un o'r staff swydd ddisgrifiadau cyfoes gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac maent yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol. Mae rheolwr yn adolygu polisïau'r lleoliad yn rheolaidd ac yn adlewyrchu newidiadau

mewn arweiniad a deddfwriaeth yn briodol. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg yn yr awyr agored yn effeithiol, ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod sylw da yn cael ei roi i weithgareddau cynlluniedig sy'n datblygu llythrennedd a rhifedd plant.

Gwella ansawdd: Da

Mae hunanarfarniad y lleoliad yn nodi'r hyn y mae'r cylch chwarae'n ei wneud yn dda yn llwyddiannus. Mae'r newidiadau diweddar i asesiadau o ddysgu plant yn dangos bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd ei angen i'w helpu i symud ymlaen. Caiff ymarferwyr eu cynnwys yn llawn yn y broses hon, ac maent yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd bob dydd. Mae'r lleoliad yn gofyn am farn rhieni trwy holiadur blynyddol byr.

Mae arweinwyr wedi bodloni'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddatblygu'r llyfrgell benthycyca sy'n galluogi plant a'u rhieni a'u gofalywyr i rannu llyfrau gartref.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol gyda thargedau priodol ar gyfer gwella. Mae'n nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, sut maent yn bwriadu ei wneud a'r unigolion sy'n gyfrifol. Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni targedau presennol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n dda am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy adroddiad ysgrifenedig dyddiol byr. Ar ddiwedd pob tymor, mae gweithwyr allweddol yn ysgrifennu adroddiad cynnydd ar y plant yn eu gofal sy'n cynnwys targedau byr ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu. Caiff rhieni gyfle i drefnu apwyntiad i siarad â gweithiwr allweddol eu plentyn am y cynnydd y mae eu plentyn wedi'i wneud, a ffyrdd y gallant eu helpu i wella.

Mae'r ffaith fod y lleoliad wedi datblygu ei dudalen cyfryngau cymdeithasol wedi gwella lefel y cyfathrebu â rhieni. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les plant a'u hymgysylltiad â dysgu, gan fod rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn fwy. Mae arddangosfeydd yn y fynedfa yn rhoi blas i ymwelwyr o'r gwaith y mae'r plant wedi ei wneud.

Mae partneriaethau â'r ysgolion y bydd y plant yn trosglwyddo iddynt yn gadarnhaol. Mae'r feithrinfa wedi meithrin perthnasoedd da gyda staff ysgolion, ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth.

Ceir cymorth cryf gan y gymuned leol. Caiff y plant eu croesawu i'r allfeydd manwerthu niferus cyfagos ac maent yn aml yn ymweld â'r llyfrgell i gael benthycy llyfrau ar gyfer eu testun presennol. Mae busnesau lleol wedi rhoi cymorth ymarferol fel tiwbiau plastig a metel ar gyfer creu cerddoriaeth a dodrefn pren a wnaed yn bwrpasol ar gyfer yr ardaloedd y tu allan.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan y lleoliad ddigon o staff profiadol a chymwys i gefnogi dysgu plant yn dda. Mae ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol trwy ystod o

hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'u targedau rheoli perfformiad. Defnyddiant y wybodaeth hon yn y lleoliad i ysgogi gwelliannau. Er enghraifft, mae hyfforddiant yn sicrhau bod gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir a chyfoes o ofynion y cyfnod sylfaen.

Mae gan y cyfarwyddwr ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae'n sicrhau bod digon o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion y plant, ac ymateb i'r targedau ar gyfer gwella a nodwyd yng nghynllun datblygu'r lleoliad.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ac ymroddiad y rheolwyr a'r ymarferwyr yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Yr arolygydd cofnodol

| | |
|-----------------------|--------------------|
| Mrs Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Cofnodol |
|-----------------------|--------------------|

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

| | |
|---|---|
| AGGCC | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| Athro ymgynghorol awdurdod lleol | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| Y Cyfnod Sylfaen | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA) | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| Meysydd Dysgu | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol |
| Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|--|
| Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP) | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| Mudiad Meithrin | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |